# ROWLEY, HAROLD HENRY (1890 - 1969), Athro, ysgolhaig ac awdur

**Enw:** Harold Henry Rowley
**Dyddiad geni:** 1890
**Dyddiad marw:** 1969
**Priod:** Gladys B. Rowley (née Shaw)
**Plentyn:** Winifred Mary Johnson (née Rowley)
**Rhiant:** Emma Rowley
**Rhiant:** Richard Rowley
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** Athro, ysgolhaig ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Addysg; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Gwilym Henry Jones

Ganwyd 24 Mawrth 1890 yng Nghaerlyr, yn fab i Richard ac Emma Rowley. Aeth i Goleg y Bedyddwyr, Bryste, a Choleg Mansfield, Rhydychen, gan raddio'n M.A. ym Mryste, B.Litt. yn Rhydychen a D.D. o Brifysgol Llundain. Enillodd lu o wobrau ac ysgoloriaethau, gan gynnwys Gwobr Houghton mewn Syrieg. Bu'n weinidog ar gynulleidfa unedig y Bedyddwyr a'r Annibynwyr yn Wells, Gwlad-yr-Haf (1917-22) ac wedyn yn genhadwr yn Tsieina (1922-30), lle'r oedd yn Athro ym Mhrifysgol Gristionogol Shangtung. Daeth i Gymru yn 1930, yn ddarlithydd mewn ieithoedd Semitig yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd, ac yna'n Athro Hebraeg a Ieithoedd Semitig yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor (1935-45). Tra oedd ym Mangor bu'n is-brifathro'r Coleg (1940-45) ac yn Ddeon yr Ysgol Diwinyddiaeth (1936-45), ac fe'i cofir fel gweithiwr caled a disgyblwr llym. Symudodd i Gadair ieithoedd Semitig Prifysgol Manceinion yn 1945; bu yno hyd ei ymddeoliad yn 1956, a bu'n Ddeon Diwinyddiaeth y Brifysgol (1953-56). Bu hefyd yn llywydd Undeb Bedyddwyr Prydain (1957-58).

Cyhoeddodd nifer helaeth o gyfrolau, yn eu plith *Darius the Mede and the four world empires in the Book of Daniel* (1935), *The relevance of the Bible* (1942), *The relevance of Apocalyptic* (1944), *The Growth of the Old Testament* (1950), *The Biblical doctrine of election* (1950), *From Joseph to Joshua* (1950). Cyhoeddodd hefyd dri chasgliad o erthyglau, *The servant of the Lord* (1952), *Men of God* (1963) a *From Moses to Qumran* (1963), a bu'n olygydd i nifer o gyfrolau ac i'r *Journal of Semitic studies* (1956-60). Nodweddir ei waith gan droednodiadau helaeth, sy'n ffynonellau dihysbydd i ymchwilwyr.

Yn ei ddydd yr oedd yn un o'r ysgolheigion mwyaf adnabyddus trwy'r byd ym maes yr *Hen Destament*, fel y gwelir oddi wrth yr anrhydeddau a dderbyniodd: doethuriaethau er anrhydedd gan Brifysgolion Durham, Cymru, Rhydychen, Manceinion, Caeredin, Uppsala, Zürich, Marburg, McMaster a Strasbourg; ei wneud yn aelod anrhydeddus o gymdeithasau ysgolheigaidd mewn gwahanol wledydd; ei ethol yn Gymrawd o'r Academi Brydeinig; medal Burkitt yr Academi Brydeinig am astudiaethau Beiblaidd. Ef yn anad neb a lwyddodd i gysylltu ysgolheigion yr *Hen Destament* â'i gilydd ar ôl Rhyfel Byd II; bu'n ysgrifennydd Cymdeithas Efrydu'r Hen Destament (1946-60), ac yn llywydd iddi (1950).

Priododd Gladys B. Shaw yn 1918 a bu iddynt fab a 3 merch. Aeth i fyw i Stroud ar ôl ymddeol ac yno y bu farw 4 Hydref 1969.

## Awdur

**Y Parchedig Gwilym Henry Jones**

## Ffynonellau


*Who was who?*

Martin Noth a D. Winton Thomas (gol.), *Wisdom in Israel and in the Ancient Near East: Presented to Harold Henry Rowley by the Editorial Board of Vetus Testamentum in Celebration of his 65th Birthday, 24 March 1955*, vii-x, a'i gyhoeddiadau, xi-xix


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 110882748

Wikidata: Q18528060


**Dyddiad cyhoeddi:** 1997



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu